**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg**
**Minister for Mental Health, Wellbeing and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-1111
Ein cyf/Our ref EM/00926/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau

29 Ionawr 2021

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 16 Rhagfyr ar ran y Pwyllgor Deisebau ynghylch cyllid ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd darparu cymaint o hyblygrwydd â phosibl i fyrddau iechyd fel y gallant ymateb i'r pwysau ychwanegol ar wasanaethau yn sgil y pandemig. Fis Mawrth, gwnaethom ryddhau £3.5m o gyllid ar gyfer y chwe mis cyntaf o'r Gronfa Gwella Gwasanaethau Iechyd Meddwl (£7m yn gyfan gwbl). Cafodd y cyllid hwn ei ddyrannu ar draws pob bwrdd iechyd i sicrhau parhad gwasanaethau a'r hyblygrwydd a oedd ei angen bryd hynny.

Gwnaed yr ail ddyraniad o £3.5m yn ystod y flwyddyn i'r meysydd blaenoriaeth yn ein Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl. Roedd hyn yn golygu bod cyllid ar gael ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed / cymorth ar gyfer plant a phobl ifanc, gwasanaethau y tu allan i oriau / gwasanaethau mewn argyfwng, cymorth pellach ar gyfer gwasanaethau amenedigol, gwasanaethau anhwylderau bwyta ac i gynyddu mynediad at therapïau seicolegol.

Mae pob un o'r byrddau iechyd bellach wedi cael eu dyraniad llawn o'r £7m ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl ac mae'r cyllid hwn wedi'i ychwanegu at y prif ddyraniad GIG (o fewn y cyllid iechyd meddwl sydd wedi'i neilltuo) ar gyfer 2021-22.

Gobeithiaf fod yr wybodaeth hon o gymorth.

Yn gywir,

M. E. Morgan

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg
Minister for Mental Health, Wellbeing and Welsh Language

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.